Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymchwil: Dadfeddiannau Tai Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ORS i ymgymryd â phrosiect sy'n archwilio dadfeddiannu yn dai cymdeithasol yng Nghymru. Nod y gwerthusiad yw asesu cyfraddau presennol o droi allan tai cymdeithasol a'r rhesymau dros droi allan; yn ogystal â deall pa gamau sy'n cael eu cymryd/y cymorth a ddarperir cyn mynd ati i'w troi allan er mwyn osgoi cyrraedd sefyllfa o argyfwng.

Fel rhan o'r prosiect hwn, fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn cyfweliad ffôn manwl ansoddol sy'n ymchwilio ymhellach i brofiadau a phrosesau troi allan ar gyfer tai cymdeithasol.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, bydd adroddiad ymchwil a chrynodeb gweithredol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a byddant ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu henwi wrth adrodd am y canfyddiadau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd ORS yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir yn ystod gwaith maes ymchwil. Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich safbwyntiau a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer y gwerthusiad hwn yn yr ORS yw Hannah Champion.
Rhif ffôn: 01792 828355
E-bost: hannah.champion@ors.org.uk

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD: Ymchwil i Ddadfeddiannau Tai Cymdeithasol

### Pa fanylion personol sydd gennym ni a sut y cawsom eich manylion?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) fel "unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson adnabyddedig y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, wrth gyfeirio at adnabyddydd".

Fe'ch gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweliad manwl dros y ffôn gydag ymchwilydd o'r ORS. Darparwyd eich manylion i Lywodraeth Cymru gan eich awdurdod lleol gan mai chi oedd y person a oedd yn fwyaf abl i ymateb yn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Efallai eich bod hefyd wedi cofrestru eich diddordeb mewn cymryd rhan drwy'r arolwg ar-lein.

Nid yw'r cyfweliad yn gofyn am gasglu unrhyw ddata personol ychwanegol. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei nodi'n bersonol yn cael ei dileu.

Os ydych yn codi ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais at y swyddog perthnasol yn unig ac wedyn yn ei ddileu o ddata'r ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer casglu'r data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarferiad casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, gweithredu ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth ymarferol ynglŷn â'i gallu i weithredu blaenoriaethau llywodraeth. Er enghraifft, Gallai'r wybodaeth a gesglir gael ei ddefnyddio i ddeall sut i gefnogi landlordiaid cymdeithasol.

### Pa mor ddiogel yw unrhyw ddata personol a ddarperir?

Caiff gwybodaeth bersonol a ddarperir i ORS bob amser ei storio'n ddiogel. Dim ond nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n rhan o'r gwerthusiad sy'n medru defnyddio'r data. Bydd ymchwilwyr cymdeithasol ORS yn defnyddio manylion cyswllt cyfranogwyr i gysylltu â hwy ar gyfer dibenion ymchwil yn unig.

Mae gan ORS weithdrefnau ar gyfer delio gydag unrhyw amheuon o dorri diogelwch data. Os bydd amheuaeth bod achos o dorri diogelwch data, bydd ORS yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle mae'n ofynnol yn gyfreithlon i ni wneud hynny. Mae gan ORS dystysgrifau Cyber Essentials.

Bydd yr holl ddata a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei gadw ar ffurf anhysbys.

Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu. Bydd ORS yn defnyddio'r wybodaeth o'ch cyfweliad i lunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

## Am ba hyd ydych chi'n cadw unrhyw wybodaeth bersonol a ddarparwyd?

Bydd ORS yn cadw data personol yn ystod cyfnod y cytundeb, a bydd unrhyw ddata personol nad yw wedi'i ddileu eisoes yn cael ei ddileu dri mis ar ôl diwedd y contract.

## Eich hawliau

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Mae gennych yr hawl i:

- Gyrchu copi o'ch data eich hun;
- Gofyn i ni gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu prosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- Sicrhau bod eich data yn cael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os ydych am arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol, cysylltwch â:

Rhian Davies (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)
Ffôn: 0300 025 6791
Ebost: rhian.davies54@llyw.cymru

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yma:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ebost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru